



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



Adroddiad Ystadegol Blynyddol Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru 2023-24

Fersiwn 1

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/This document is available in English

Manylion cyhoeddi

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb manwl o wybodaeth am y gwaith a wnaed gan Raglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru ar gyfer y flwyddyn o fis Ebrill 2023 hyd at ddiwedd mis Mawrth 2024.

Teitl: Adroddiad Ystadegol Blynyddol Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru 2023-24
Dyddiad: Chwefror 2026
ISBN: 978-1-83766-776-5

Manylion cyswllt

Yr Adran Wybodeg, Llawr 6, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Rhif 2 Capital Quarter, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ

E-bost: screening.information@wales.nhs.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg heb oedi. Byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg heb oedi.

Datganiad Sicrwydd Ansawdd

Mae cofnodion data sgrinio yn cael eu diweddarau'n gyson. Mae'r cronfeydd data a ddefnyddir gan Is-adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu diweddarau'n ddyddiol pan fydd cofnodion yn cael eu hychwanegu, eu newid neu eu dileu (wedi'u harchifo). Gallai hyn ymwneud â phryd y nodwyd bod angen sgrinio person; wedi cael canlyniadau sgrinio y mae angen eu cofnodi neu wedi newid statws ac nad oes angen ei sgrinio mwyach yn y drefn honno. Derbynnir data o nifer fawr o wahanol ffynonellau gyda lefelau amrywiol o gywirdeb a chyflawnrwydd. Mae'r Is-adran Sgrinio yn gwirio data am gywirdeb trwy gymharu setiau data - er enghraifft data practisiau Meddygon Teulu - ac mae'n cywiro'r data codio lle bo modd. Dylid nodi bod oedi weithiau wrth gasglu data – er enghraifft efallai na fydd person yn cofrestru ar unwaith gyda'i feddyg teulu os bydd yn symud i gyfeiriad arall. Bydd yr oedi hwn felly yn effeithio ar gyflawnrwydd y data yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Yn ogystal, dylai'r darlennydd fod yn ymwybodol bod data'n cael ei ddiweddarau'n gyson ac efallai y bydd mân newidiadau yn y niferoedd a nodir yn y ddogfen hon flwyddyn ar ôl blwyddyn oherwydd adnewyddu data. Yn achlysurol rydym yn atal rhifau sy'n is na phump pan fo'r data o bosibl yn sensitif.

Gwybodaeth hawlfraint

© 2026 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Caniateir atgynhyrchu deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) ar yr amod y gwneir hynny'n fanwl gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid nodi cydnabyddiaeth i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hawlfraint y trefniant teipograffyddol, y dylunwaith a'r cynllun yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cynnwys

Cynnwys.....	4
Tablau	5
Ffigurau	5
Negeseuon allweddol	6
Cyflwyniad.....	7
Cefndir	7
Cyflawni'r rhaglen	8
Llwybr Sgrinio	8
Prif Ystadegau	11
Data	12
Nifer sy'n cael ei sgrinio	12
Heb eu delweddu	18
Dynion sy'n hunangyfeirio	20
Anewrysm aortig yn yr abdomen wedi'u canfod	21
Y nifer sy'n cael gwyliadwriaeth AAA	23
Atgyfeirio at y tîm amlddisgyblaethol a phrydlondeb ymyrraeth.....	25
Diffiniadau	27
Y Tîm Cynhyrchu.....	28
Manylion cyswllt y rhaglen.....	28

Tablau

Tabl 1: Nifer y rhai a gafodd brawf sgrinio am aneuryism aortig yn yr abdomen yn ôl bwrdd iechyd preswyl	13
Tabl 2: Y nifer a gafodd eu sgrinio am aneuryism aortig yn yr abdomen yn ôl mis y gwahoddiad ar gyfer Ebrill 2023 – Mawrth 2024.....	14
Tabl 3: Nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio am aneuryism aortig yn yr abdomen yn ôl cwintel amddifadedd a bwrdd iechyd preswyl (%)	16
Tabl 4: Canran yr aortâu heb eu delweddu yn ôl bwrdd iechyd preswyl	19
Tabl 5: Nifer y rhai a gafodd eu sgrinio sydd ag AAA ($\geq 3\text{cm}$) wedi'i ganfod fesul bwrdd iechyd preswyl	22
Tabl 6: Nifer y rhai a gafodd gwyliadwriaeth AAA yn ôl bwrdd iechyd preswyl	24

Ffigurau

Ffigur 1: Llwybr ar gyfer sgrinio AAA	10
Ffigur 2: Nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio am aneuryism aortig yn yr abdomen yn ôl bwrdd iechyd preswyl	15
Ffigur 3: Nifer o bobl sy'n cael sgrinio AAA yn ôl cwintel amddifadedd a bwrdd iechyd preswyl (%)	17



Negeseuon allweddol

- Yr aorta yw'r brif bibell waed sy'n cyflenwi gwaed i'r corff. Chwydd yn yr aorta yn yr abdomen yw anwrysm aortig yn yr abdomen (AAA), a all hollti neu rwygo os na chaiff ei ganfod.
- Mae cynnal prawf sgrinio anwrysm aortig yn yr abdomen (AAA) yn lleihau'r risg o farw o AAA. Mae canfod AAA yn gynnar yn rhoi'r cyfle gorau i'r dyn gael triniaeth a goroesi.
- Mae sgrinio AAA yn cynnwys sgan uwchsain syml i fesur yr aorta abdomenol.
- Mae sgrinio AAA yn brawf GIG am ddim a gynhelir mewn clinigau cymunedol.
- Dewis y dyn yw cymryd rhan mewn sgrinio AAA.

Cyflwyniad

Cefndir

Mae tystiolaeth ymchwil wedi dangos y gall rhaglen sgrinio o ansawdd uchel ar gyfer AAA leihau marwolaethau o anewrysm aortig wedi rhwygo tua 50% mewn dynion 65 – 74 oed.¹ Ym mis Chwefror 2007, cymeradwyodd Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU gyflwyno sgrinio AAA i ddynion 65 oed gan ddefnyddio sganau uwchsain abdomenol ar yr amod bod:

- Y rhoddwyd gwybodaeth glir i ddynion a wahoddwyd am risgiau llawdriniaeth ddewisol, a
- Rhwydweithiau fasgwlaidd ar waith i drin unigolion a atgyfeiriwyd o sgrinio.

Lansiwyd Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru (WAAASP) ym mis Mai 2013 ac erbyn 2025 mae'n anelu at haneru marwolaethau sy'n gysylltiedig ag anewrysm aortig yn yr abdomen (AAA) yn y boblogaeth gymwys trwy raglen sgrinio systematig ar gyfer dynion 65 oed sy'n byw yng Nghymru.

Ers 1 Mai 2015, gall dynion nad ydynt erioed wedi bod am sgrinio AAA y GIG ac nad ydynt wedi cael cynnig sgrinio AAA oherwydd eu bod wedi troi'n 65 oed cyn iddo fod ar gael yng Nghymru gysylltu â'r swyddfeydd sgrinio lleol i ofyn am sgan sgrinio AAA.

Cymhwysedd cyfredol

Bydd dynion sy'n byw yng Nghymru yn cael gwahoddiad i gymryd rhan mewn sgrinio AAA pan fyddant yn 65 oed. Gall dynion dros 65 oed 'hunangyfeirio' at y rhaglen ar yr amod nad ydynt wedi cael eu sgrinio o'r blaen. Nid oes terfyn oedran uchaf ar gyfer hyn.

Ffynonellau gwybodaeth ychwanegol

[Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol - Iechyd Cyhoeddus Cymru \(gig.cymru\)](http://gig.cymru)

¹ Ashton HA, Buxton MJ, Day NE, Kim LG, Marteau TM, Scott RAP et al. (2002) Grŵp Astudiaeth Sgrinio Anewrysm Aml-ganolfan. The Multicentre Aneurysm Screening Study (MASS) into the effect of abdominal aortic aneurysm screening on mortality in men: a randomised controlled trial. *Lancet*, 360 (9345), 1531-9.

Lleoliadau sgrinio

Mae tua 60 o glinigau sgrinio ledled Cymru. Mae'r lleoliadau hyn yn cynnwys ysbytai cymunedol, practisiau meddygon teulu, canolfannau cymunedol, carchardai, cyfleusterau chwaraeon, canolfannau addysg a 2 ganolfan sgrinio, sy'n cael eu gweithredu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Crynodeb o weithgarwch yn y flwyddyn a adroddwyd

Oherwydd effaith y pandemig ar gapasiti sgrinio, roedd amseroedd aros y tu hwnt i ben-blwydd yn 65 oed yn y boblogaeth gymwys yn hirach na'r disgwyl. Ymrwymodd y rhaglen i sicrhau na fyddai unrhyw ddynion cymwys yn aros y tu hwnt i'w pen-blwydd yn 66 oed erbyn 31 Mawrth 2024. I gyflawni hyn, recriwtiwyd a hyfforddwyd sgrinwyr AAA ychwanegol a gweithiodd sgrinwyr oriau hirach i alluogi cynnal mwy o sganiau uwchsain nag a ddisgwyliid mewn unrhyw flwyddyn arferol.

Gwellodd amseroedd aros fel y cynlluniwyd erbyn diwedd mis Mawrth 2024. Rhagwelir y bydd angen llai o sganiau uwchsain yn y blynyddoedd dilynol.

Cyflawni'r rhaglen

Mae Is-adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am reoli, cyflwyno a sicrhau ansawdd y rhaglen. Mae'r rhaglen yn cyflogi Pennaeth Rhaglen, Rheolwr Rhaglen, Arweinydd Llawfeddygaeth Fasgwlaidd Sicrhau Ansawdd, Cynghorydd Delweddu Clinigol, Arweinydd Ansawdd, Addysg a Hyfforddiant, tri hyfforddwr sgiliau clinigol a Chydlynnydd Gweinyddol Cymru Gyfan gyda chefnogaeth gan dîm ysgrifenyddol a gweinyddol. Er ei bod yn rhaglen Cymru gyfan, mae cydlynw rhanbarthol gan dri Chydlynnydd Rhanbarthol a thîm o 19 o sgrinwyr sy'n darparu'r sgrinio yn y gymuned.

Llwybr Sgrinio

- Gwahoddir dynion 65 oed sy'n byw yng Nghymru i gael sgan uwchsain untro i wirio a oes ganddynt AAA.
- Mae'r prawf yn cynnwys sgan syml o'r aorta yn yr abdomen, gan fesur rhan ehangaf yr aorta.
- Cynhelir sgrinio mewn tua 60 o glinigau sgrinio ledled Cymru, gan gynnwys ysbytai cymunedol, clinigau iechyd, canolfannau adnoddau sylfaenol a phractisiau meddygon teulu. Cynhelir sgrinio hefyd yn CEF Berwyn, CEF Parc, CEF Brynbuga a CEF Prescoed.
- Mae dynion sydd â diamedr aorta abdomenol o lai na 3cm yn cael eu rhyddhau o'r rhaglen.
- Mae dynion ag AAA bach neu ganolig wedi'u cynnwys yn y rhaglen wylidwriaeth ac yn cael cynnig:




- Apwyntiad ffôn gyda'r nyrs gwyliadwriaeth AAA i drafod y canlyniad a'i oblygiadau iechyd.
- Anogaeth i wneud apwyntiad gyda'u meddyg teulu i gael cyngor ar ffordd o fyw ac iechyd, monitro pwysedd gwaed a'r driniaeth feddygol orau.
- Sgrinio blynyddol os yw'r AAA yn fach (3.0 – 4.4cm).
- Sgrinio bob tri mis os yw'r AAA yn ganolig o ran maint (4.5 – 5.4cm).
- Caiff dynion sydd ag AAA mawr o 5.5cm neu fwy (neu dwf o 1cm neu fwy mewn 12 mis) eu hatgyfeirio at dîm Aml-broffesiynol Rhwydwaith Fasgwlaidd dewisol rhanbarthol (Tîm Aml-ddisgyblaethol (MDT)).
- Fel arfer cynigir ail apwyntiad gyda WAAASP i ddynion sydd ag aorta na ellir ei delweddu. Os na fydd yr ail apwyntiad yn llwyddiannus, caiff y dyn ei atgyfeirio at adran ddelweddu meddygol i fesur ei aorta abdomenol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:

[Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol - Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)

Ffigur 1: Llwybr ar gyfer sgrinio AAA



Prif Ystadegau

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024. Gyda'r nifer sy'n cael eu sgrinio wedi'i ddiffinio fel y rhai a gafodd wahoddiad yn y flwyddyn Ebrill 2023 i Fawrth 2024 yn derbyn sgan uwchsain erbyn 30 Mehefin 2024.

- Roedd y gyfradd genedlaethol yn 77.6%, yn amrywio o 75.3% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i 84.1% ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys.
- Roedd ffigurau sgrinio yn uwch ymhlith y dynion hynny a oedd yn byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (85.1%) o'i gymharu â'r ardaloedd mwyaf difreintiedig (66.8%).
- Gwahoddwyd 23,429 o ddynion cymwys gan y rhaglen. O'r rhain, mynychodd 18,180 o ddynion am eu prawf sgrinio WAAASP cyntaf a chawsant ganlyniad sgrinio pendant.
- O'r dynion a fynychodd ar gyfer eu sgrinio, canfuwyd AAA gan y rhaglen sgrinio mewn 167 (0.9%).
- Roedd angen atgyfeiriad ar 59 o ddynion a gafodd eu sgrinio i'r tîm amlddisgyblaethol rhwydwaith fasgwlaidd dewisol. Atgyfeiriwyd 88.1% o fewn dau ddiwrnod gwaith i'r sgan uwchsain gael ei gymryd.
- Cafodd 52 o ddynion lawdriniaeth agored neu endofasgwlaidd (d.s mae hon yn garfan wahanol i'r dynion a gafodd eu sgrinio a'u hatgyfeirio yn ystod y flwyddyn). Cafodd dau (3.8%) ohonynt eu llawdriniaeth wedi'i chwblhau o fewn pedair neu wyth wythnos i dderbyn yr atgyfeiriad, yn dibynnu ar faint yr AAA a ganfuwyd.
- Cynhaliwyd 1,189 (88.6%) o sganiau gwyliadwriaeth o fewn y safon (AAA canolig ar wyladwriaeth chwarterol o fewn 11 i 15 wythnos i'w sgan llwyddiannus blaenorol, AAA bach ar wyladwriaeth flynyddol o fewn 50 i 56 wythnos i'w sgan llwyddiannus blaenorol).
- Cafodd 160 o ddynion a atgyfeiriodd eu hunain eu sgrinio, gyda 5 AAA (3.1%) wedi'u canfod.

Data

Nifer sy'n cael ei sgrinio

Diffiniad a safon

Ar gyfer cyfrifiadau nifer y bobl sy'n cymryd rhan, y dynion cymwys oedd y rhai oedd yn byw yng Nghymru a wahoddwyd rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024 ac a gafodd apwyntiad sgrinio erbyn 30 Mehefin 2024. Mae dynion a gofrestrwyd â llaw (megis hunanatgyfeiriadau) wedi'u heithrio, yn ogystal â dynion a gafodd eu tynnu yn ôl o'r rhaglen yn ystod y cyfnod oherwydd eu bod y tu allan i'r garfan.

Y safon ar gyfer derbyniad yw bod 80% o ddynion a wahoddwyd yn mynychu sgrinio AAA ac yn cael eu profi.

Canlyniad ar gyfer 2023-24

Roedd y nifer a gymerodd ran yn 77.6%.

Tuedd tair blynedd

Roedd y gyfradd a gafodd brawf sgrinio yn 77.6% yn 2023-24, 77.6% yn 2022-23, ac 82.8% yn 2021-22.

Sylwadau

Ar lefel Cymru gyfan, roedd y gyfradd a gafodd brawf sgrinio ar gyfer 2023-24 yn 77.6%, yr un fath ag yn 2022-23 (77.6%).

Ar draws y byrddau iechyd, roedd y niferoedd yn amrywio o 75.3% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i 84.1% ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys ac fel arfer roeddent yn cynyddu wrth i'r cwintel amddifadedd gynyddu.

Ffigurau a thablau


Tabl 1: Nifer y rhai a gafodd brawf sgrinio am anwrysm aortig yn yr abdomen yn ôl bwrdd iechyd preswyl

Bae Abertawe	Gwahoddwyd	Wedi'u profi	% a gafodd eu sgrinio
Prifysgol Aneurin Bevan	4,004	3,062	76.5
Prifysgol Betsi Cadwaladr	5,520	4,267	77.3
Prifysgol Caerdydd a'r Fro	3,751	2,823	75.3
Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	2,898	2,280	78.7
Prifysgol Hywel Dda	3,187	2,521	79.1
Addysgu Powys	1,242	1,044	84.1
Prifysgol Bae Abertawe	2,806	2,166	77.2
Anhysbys	21	17	81.0
Cymru Gyfan	23,429	18,180	77.6

Y nifer sy'n cael eu profi yw'r rhai sy'n gymwys ac a wahoddwyd rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024. Mae 'Anhysbys' yn cyfeirio at ddynion na ellir eu dyrannu i fwrdd iechyd, mae'r rhain wedi'u cynnwys yng nghyfanswm Cymru gyfan.

Tabl 2: Y nifer a gafodd eu sgrinio am anwrysm aortig yn yr abdomen yn ôl mis y gwahoddiad ar gyfer Ebrill 2023 – Mawrth 2024.

Blwyddyn	Mis	Gwahoddwyd	Wedi'u profi	% a gafodd eu sgrinio
2023	Ebrill	2,137	1,659	77.6
2023	Mai	2,309	1,789	77.5
2023	Mehefin	2,102	1,694	80.6
2023	Gorffennaf	2,023	1,601	79.1
2023	Awst	2,171	1,736	80.0
2023	Medi	1,949	1,532	78.6
2023	Hydref	1,968	1,544	78.5
2023	Tachwedd	1,982	1,518	76.6
2023	Rhagfyr	1,145	916	80.0
2024	Ionawr	1,947	1,398	71.8
2024	Chwefror	2,026	1,534	75.7
2024	Mawrth	1,670	1,259	75.4
Cyfanswm		23,429	18,180	77.6




Ffigur 2: Nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio am aneurysm aortig yn yr abdomen yn ôl bwrdd iechyd preswyl

PAB - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, PBC - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, PCF - Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, CTM - Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, PHD - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, AP - Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, PBA - Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Tabl 3: Nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio am anewrysm aortig yn yr abdomen yn ôl cwintel amddifadedd a bwrdd iechyd preswyl (%)

Bae Abertawe	% a gafodd eu sgrinio					% Cyfanswm y rhai a gafodd eu sgrinio
	C1 - amddifadedd mwyaf	C2	C3	C4	C5 - amddifadedd lleiaf	
Prifysgol Aneurin Bevan	67.0	74.1	77.7	79.8	86.9	76.5
Prifysgol Betsi Cadwaladr	67.8	72.3	76.3	78.8	83.8	77.3
Prifysgol Caerdydd a'r Fro	59.5	74.4	72.4	75.7	84.6	75.3
Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	72.8	75.4	80.8	84.9	86.6	78.7
Prifysgol Hywel Dda	69.1	76.8	79.1	82.9	85.9	79.1
Addysgu Powys	75.0	83.5	82.0	85.9	85.1	84.1
Prifysgol Bae Abertawe	67.2	77.2	75.4	80.5	85.5	77.2
Anhysbys	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	81.0
Cymru Gyfan	66.8	75.1	77.6	80.7	85.1	77.6

Mae 'Anhysbys' yn cyfeirio at ddynion na ellir eu dyrannu i fwrdd iechyd, mae'r rhain wedi'u cynnwys yng nghyfanswm Cymru gyfan.



Ffigur 3: Nifer o bobl sy'n cael sgrinio AAA yn ôl cwintel amddifadedd a bwrdd iechyd preswyl (%)

PAB - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, PBC - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, PCF - Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, CTM - Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, PhD - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, AP - Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, PBA - Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. D.s. mae cwintel 5 ym Mhowys yn cynnwys niferoedd bach.

Heb eu delweddu

Diffiniad a safon

Cyfeirir at apwyntiadau wedi'u cwblhau lle na welwyd yr aorta abdomenol fel 'heb ei delweddu'.

Y safon yw bod $\leq 3\%$ o apwyntiadau gyda chydysyniad yn arwain at aorta heb ei delweddu.

Canlyniad ar gyfer 2023-24

Roedd canran yr aortâu heb eu delweddu yn 1.0%.

Tuedd tair blynedd

Roedd y ganran heb eu delweddu yn 1.0% yn 2023-24, 0.9% yn 2022-23 ac 1.1% yn 2021-22.

Sylwadau

Ar lefel Cymru gyfan, mae canran yr aortâu heb eu delweddu wedi cynyddu o 0.9% yn 2022-23 i 1.0% yn 2023-24. Ar draws y byrddau iechyd, roedd canran yr aortâu heb eu delweddu yn amrywio o 0.6% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i 1.6% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Ffigurau a thablau

Tabl 4: Canran yr aortâu heb eu delweddu yn ôl bwrdd iechyd preswyl

Bae Abertawe	Sganiau	Heb eu delweddu	Heb eu delweddu (%)
Prifysgol Aneurin Bevan	3,397	53	1.6
Prifysgol Betsi Cadwaladr	4,969	50	1.0
Prifysgol Caerdydd a'r Fro	2,963	28	0.9
Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	2,703	28	1.0
Prifysgol Hywel Dda	2,946	18	0.6
Addysgu Powys	1,063	7	0.7
Prifysgol Bae Abertawe	2,437	17	0.7
Anhysbys	16	0	0.0
Cymru Gyfan	20,494	201	1.0

Dynion sy'n hunangyfeirio

Diffiniad a safon

Ers 1 Mai 2015, gall dynion dros 65 oed nad ydynt wedi cael sgrinio'r GIG am AAA hunangyfeirio drwy gysylltu â'r rhaglen sgrinio i ofyn am apwyntiad. Dim ond dynion nad ydynt wedi cael gwahoddiad gan y rhaglen o'r blaen sydd wedi'u cynnwys yn y canlyniadau isod.

Canlyniad ar gyfer 2023-24

Sganiwyd 160 o ddynion a atgyfeiriodd eu hunain gyda 5 (3.1%) o AAA wedi'u canfod.

Tuedd tair blynedd

Sganiwyd 160 o ddynion a atgyfeiriodd eu hunain (canfuwyd 5 (3.1%) AAA) yn 2023-24, 242 (canfuwyd 12 (5.0%) AAA) yn 2022-23, a 197 (canfuwyd 4 (2.0%) AAA) yn 2021-22.

Sylwadau

Rhagwelir y bydd nifer y dynion sy'n hunangyfeirio ar gyfer sgrinio AAA yn lleihau wrth i'r rhaglen aeddfedu.

Anewrysm aortig yn yr abdomen wedi'u canfod

Diffiniad a safon

Dim ond ar y sgan pendant cyntaf y cyfrifir dynion sydd ag AAA ($\geq 3\text{cm}$) wedi'i ganfod, nid ar sganiau gwylidwriaeth. Ni chyfrifir achosion lle nad yw'r aorta yn cael ei delweddu fel canlyniad sgan pendant.

Y safon yw, o'r rhai sy'n cael eu sgrinio, y bydd gan 1% AAA ($\geq 3\text{cm}$).

Canlyniad ar gyfer 2023-24

Canfuwyd 167 o AAA (cyfradd canfod o 0.9%).

Tuedd tair blynedd

Canfuwyd 167 o AAA yn 2023-24 (cyfradd canfod o 0.9%), canfuwyd 189 o AAA yn 2022-23 (cyfradd canfod o 0.9%), a chanfuwyd 134 o AAA yn 2021-22 (cyfradd canfod o 0.9%).

Ffigurau a thablau

Tabl 5: Nifer y rhai a gafodd eu sgrinio sydd ag AAA ($\geq 3\text{cm}$) wedi'i ganfod fesul bwrdd iechyd preswyl

Bae Abertawe	Wedi Mynychu	Cyfanswm AAA	Cyfradd Canfod (%)
Prifysgol Aneurin Bevan	3,099	20	0.6
Prifysgol Betsi Cadwaladr	4,508	49	1.1
Prifysgol Caerdydd a'r Fro	2,768	26	0.9
Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	2,490	18	0.7
Prifysgol Hywel Dda	2,681	25	0.9
Addysgu Powys	997	11	1.1
Prifysgol Bae Abertawe	2,228	18	0.8
Anhysbys	16	0	0.0
Cymru Gyfan	18,787	167	0.9

Mae anhysbys yn cyfeirio at ddynion na ellir eu dyrannu i fwrdd iechyd. Fodd bynnag maent wedi'u cynnwys yng nghyfanswm Cymru gyfan.

Y nifer sy'n cael gwyliadwriaeth AAA

Diffiniad a safon

Canran y dynion a fynychodd eu hapwyntiad sgrinio gwyliadwriaeth. Mae nifer y bobl sy'n cael eu goruchwyllo yn cynnwys dynion sydd wedi cael AAA canolig ($\geq 4.5\text{cm}$ a $< 5.5\text{cm}$), sy'n cael eu gwahodd i gael gwyliadwriaeth bob chwarter, a dynion sydd wedi cael AAA bach ($\geq 3\text{cm}$ a $< 4.5\text{cm}$), sy'n cael eu gwahodd i gael gwyliadwriaeth bob blwyddyn.

Y safon ar gyfer AAA canolig yw bod o leiaf 90% o gyfranogwyr yn mynychu apwyntiad gwyliadwriaeth chwarterol o fewn 11 i 15 wythnos i sgan llwyddiannus blaenorol. Y safon ar gyfer AAA bach yw bod o leiaf 90% o gyfranogwyr yn mynychu apwyntiad gwyliadwriaeth flynyddol rhwng 50 a 56 wythnos ar ôl sgan llwyddiannus blaenorol.

Canlyniad ar gyfer 2023-24

Roedd y nifer a gymerodd ran mewn gwyliadwriaeth yn 88.6%.

Tuedd tair blynedd

Nifer y bobl a gymerodd ran mewn gwyliadwriaeth oedd 88.6% yn 2023-24, 88.1% yn 2022-23 a 90.0% yn 2021-22.

Ffigurau a thablau

Tabl 6: Nifer y rhai a gafodd gwyliadwriaeth AAA yn ôl bwrdd iechyd preswyl

Bae Abertawe	Gwahoddwyd	Wedi'u sgrinio	Nifer a gafodd eu sgrinio (%)
Prifysgol Aneurin Bevan	216	202	93.5
Prifysgol Betsi Cadwaladr	368	313	85.1
Prifysgol Caerdydd a'r Fro	147	129	87.8
Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	175	155	88.6
Prifysgol Hywel Dda	208	186	89.4
Addysgu Powys	48	40	83.3
Prifysgol Bae Abertawe	179	164	91.6
Anhysbys	1	0	0.0
Cymru Gyfan	1,342	1,189	88.6

Atgyfeirio at y tîm amlddisgyblaethol a phrydlondeb ymyrraeth

Diffiniad a safon

Yr atgyfeiriad i'r tîm amlddisgyblaethol rhwydwaith fasgwlaidd dewisol yw'r cyfnod rhwng cynnal sgrinio ac anfon yr atgyfeiriad at y tîm amlddisgyblaethol (MDT) rhwydwaith fasgwlaidd dewisol.

Y safon yw atgyfeirio o fewn dau ddiwrnod gwaith.

Prydlondeb ymyrraeth yw'r cyfnod rhwng yr atgyfeiriad y mae'r tîm amlddisgyblaeth yn ei dderbyn ar gyfer AAA a ganfuwyd drwy sgrinio ac a ystyrir yn addas ar gyfer ymyrraeth ac amser yr ymyrraeth lawfeddygol trwy atgyweiriad agored neu atgyweirio ymlediad endofasgwlaidd (EVAR).

Y safon yw y dylid cwblhau llawdriniaeth o fewn pedair wythnos i'r atgyfeiriad ar gyfer anewrysmau mawr iawn (7cm ac uwch) ac o fewn wyth wythnos i'r atgyfeiriad ar gyfer anewrysmau mawr (5.5cm i 6.9cm).

Canlyniad ar gyfer 2023-24

Digwyddodd 88.1% (52) o atgyfeiriadau i'r Tîm Amlddisgyblaethol rhwydwaith fasgwlaidd dewisol o fewn 2 ddiwrnod gwaith.

Cafodd 3.8% (2) oedd yn addas ar gyfer atgyweiriad agored neu EVAR eu llawdriniaeth o fewn 4/8 wythnos.

Tuedd tair blynedd

Digwyddodd 88.1% (52) o atgyfeiriadau i'r Tîm Amlddisgyblaethol rhwydwaith fasgwlaidd dewisol o fewn 2 ddiwrnod gwaith yn 2023-24, 83.3% (50) yn 2022-23, a 90.0% (54) yn 2021-22.

Cafodd 3.8% (2) oedd yn addas ar gyfer atgyweiriad agored neu EVAR eu llawdriniaeth o fewn 4/8 wythnos yn 2023-24, 12.2% (6) yn 2022-23, a 23.2% (13) yn 2021-22.

Sylwadau

Yn ystod 2023-24, cafodd 59 o ddynion eu sgrinio ac roedd angen atgyfeiriad arnynt i'r Tîm Amlddisgyblaethol rhwydwaith fasgwlaidd dewisol, gydag 88.1% yn cael eu hatgyfeirio o fewn dau ddiwrnod gwaith i gynnal y sgrinio. Nid yw hyn yn cynnwys atgyfeiriadau at wasanaethau fasgwlaidd ar alwad (h.y. y rhai sydd ag AAA mawr iawn wedi'i ganfod).



Cafodd 52 o ddynion llawdriniaeth agored neu endofasgwlaidd. Mae hon yn garfan wahanol i'r dynion a gafodd eu sgrinio a'u hatgyfeirio yn ystod y flwyddyn. Cafodd 2 (3.8%) o'r rhain eu llawdriniaeth wedi'i chwblhau o fewn pedair neu wyth wythnos i dderbyn yr atgyfeiriad, yn dibynnu ar faint yr AAA a ganfuwyd. Trafodwyd cydymffurfiaeth â'r safon prydlondeb hon yng nghyfarfodydd ar y cyd rhwng Cydlynwyr WAAASP a'r Tîm Amlddisgyblaethol EVN. Mae cydlynwyr y Tîm Amlddisgyblaethol yn cyflwyno adroddiad eithriad ar gyfer pob dyn sy'n torri'r safon atgyweirio amserol.

Mae gostyngiad yng nghydymffurfio â'r safon hon o'i gymharu â'r Adroddiad Ystadegol Blyneddol blaenorol. Yn 2022-23, cafodd 6 dyn (12.2%) eu llawdriniaeth o fewn y safon prydlondeb. Mae'r rhesymau dros yr oedi mewn triniaeth yn ystod y ddwy flynedd yn amlffactoraidd ac yn cynnwys:

- Dynion â chydafiacheddau
- Gostyngiad yng nghapasiti theatrau
- Oedi mewn profion diagnostig cyn llawdriniaeth
- Amrywiad o ran cynnydd wrth ddatblygu'r rhwydweithiau fasgwlaidd dewisol rhanbarthol

Diffiniadau

Cymwys

Ar gyfer cyfrifiadau nifer y bobl sy'n cymryd rhan, y dynion cymwys oedd y rhai sy'n byw yng Nghymru a wahoddwyd yn ystod y cyfnod. Mae dynion a gofrestrwyd â llaw (megis hunanatgyfeiriadau) wedi'u heithrio. Mae dynion a wahoddwyd a dynnodd yn ôl o'r rhaglen yn ystod y cyfnod oherwydd eu bod y tu allan i'r garfan wedi'u tynnu oddi ar y rhestr.

Nifer sy'n cael ei sgrinio

Cyfrifwyd dynion fel rhai a oedd wedi ymateb i'w gwahoddiad os cawsant eu gwahodd yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill a Mawrth ac os oeddent wedi mynychu erbyn 30 Mehefin 2023.

Amddifadedd

Neilltuwyd cwintelau amddifadedd gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc) 2014 a fesurwyd ar lefel ardal gynnyrch ehangach haen is (LSOA). Mae ardaloedd cynnyrch ehangach haen is wedi'u rhestru'n gwintelau ar lefel Cymru gyfan fel y gellir eu cymharu rhwng byrddau iechyd. Mae hyn yn golygu na fydd cyfran gyfartal o bobl ym mhob cwintel o fewn pob bwrdd iechyd e.e. yn Sir Fynwy, mae 40% o'r boblogaeth yn byw yng nghwintel lleiaf difreintiedig Cymru ond nid oes unrhyw ardaloedd yn dod o fewn cwintel mwyaf difreintiedig Cymru.

Bwrdd Iechyd

Dyma'r bwrdd iechyd preswyl.

Canlyniad

Mae canlyniad sgan pendant yn eithrio'r rhai lle ceir canlyniad terfynol o fethu delweddu'r aorta abdomenol.

Y Tîm Cynhyrchu

Cyflogir holl dîm cynhyrchu'r adroddiad hwn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac fe'u rhestrir isod.

Jeremy Surcombe	Pennaeth Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru
Dr Sharon Hillier	Cyfarwyddwr yr Is-adran Sgrinio
Guy Stevens	Rheolwr Gwybodeg Arweiniol a Gwasanaethau Data Dros Dro
Richard Wakely	Uwch Ddadansoddwr Gwybodeg a Data
Gareth Denton	Rheolwr Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru
Dr Emma Richards	Ymchwilydd Iechyd y Cyhoedd

Manylion cyswllt y rhaglen

Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru
Iechyd Cyhoeddus Cymru, Uned 6, Green Meadow, Llantrisant, Pont-y-clun, CF72 8XT

Rhif ffôn: 0300 003 0510

E-bost: aaa@wales.nhs.uk



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Gweithio gyda'n gilydd
i greu Cymru iachach

Working together
for a healthier Wales